



Promoting improvements  
in policing to make  
everyone safer

## Cyfreithlondeb

### **Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?**

Aseswyd Heddlu Gwent fel llu sydd yn dda o ran cyfreithlondeb y ffordd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu ag ef. Mae ein canfyddiadau eleni yn gyson â chanfyddiadau llynedd, lle gwnaethom ddyfarnu bod y llu'n dda o ran cyfreithlondeb.

Mae gan y llu werthoedd clir a ddeallir gan y gweithlu ac mae'n ceisio adborth gan y cyhoedd ynghylch sut maent yn cael eu trin. Mae Heddlu Gwent yn mynnu bod ei weithlu'n gweithredu ag uniondeb ac mae'n dda o ran nodi risgiau o lygredigaeth. Mae'r llu'n ceisio barnau ei staff ac mae ganddo weithdrefnau iechyd a lles hirsefydlog.

Mae gan Heddlu Gwent 'weledigaeth a gwerthoedd' clir a fynegir yn dda, ac mae'r Cod Moeseg yn gyfarwydd i staff ar draws y sefydliad. Mae'n hyrwyddo'r Cod Moeseg trwy ddefnyddio dilemâu moesegol i ysgogi trafodaeth a dadl.

Mae'r llu'n dda o ran gweithredu ar ddysg. Mae ganddo fwrdd rheoli i nodi a rheoli dysg oddi wrth amrediad o ffynonellau. Mae llywodraethu prosesau a gwybodaeth yn perthyn i gyfreithlondeb fewnol a chyhoeddus yn dda, ac mae gan y llu gynlluniau clir yn eu lle i sicrhau bod ei ymagwedd tuag at gyfreithlondeb yn cael ei chydgyssylltu'n briodol.

Mae'r llu'n nodi bygythion i'r sefydliad yn effeithiol; er enghraifft, mae Operation Erasure [Ymgyrch Dileu] yn nodi aelodau staff a allai fod mewn perygl o ddioddef ymddygiad rhywiol rheibus.

Mae gan y llu strategaeth hirsefydlog ac effeithiol ar gyfer iechyd a lles, a gefnogir gan amrediad o fesurau ymarferol i hyrwyddo iechyd a lles. Mae'r gweithlu'n nodi ei gwerth. Yn ychwanegol, mae'r llu'n parchu barnau ei staff ac yn gweithredu'n briodol ac yn gyfreithlon i ymdrin â phryderon neu broblemau a godir gan y gweithlu. Mae'r llu'n annog arloesi mewn ffordd weithredol. Croesawir cyfraniadau gan staff i welliant sefydliadol, trwy'r cynllun awgrymiadau staff, a maent yn cael eu hasesu a gwneir cynnydd arnynt mewn ffordd a werthfawrogir yn gadarnhaol gan y gweithlu.